# GWYDDONWYR DU
# BLACK SCIENTISTS



## Roy L. Clay Sr.

Roedd Roy L. Clay yr Hynaf yn wyddonydd cyfrifiadurol a dyfeisiwr Americanaidd, a galwyd ef hefyd yn dad bedydd Dyffryn Silicon. Fel un o sylfaenwyr ac arweinydd yr adran Cyfrifiadureg yn Hewlett-Packard (HP), roedd yn allweddol i'r gwaith o ddatblygu un o gyfrifiaduron cyntaf y cwmni, sef HP 2116A. Dechreuodd Clay fentrau amrywiol i wella cynrychiolaeth Americanwyr Affricanaidd yn Nyffryn Silicon, ac yn ddiweddarach sefydlodd ei gwmni ei hun, ROD-L Electronics. Cafodd ei le yn Neuadd Enwogion Dyffryn Silicon yn 2003.

Roy L. Clay Sr., also known as the Godfather of Silicon Valley, was an American computer scientist and inventor. As a founding member and leader of the Computer Science division at Hewlett-Packard (HP), he was fundamental in the development of one of the company's first minicomputers, the HP 2116A. Clay started varioius initiatives to improve the representation of African-Americans in Silicon Valley, and later founded his own company, ROD-L Electronics. He was inducted into the Silicon Valley Hall of Fame in 2003.

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

MIS HANES POBL DDUON
BLACK HISTORY MONTH